

WYNEBU'R DYFODOL GYDA FFYDD A GWROLDEB

Nodyn i'r siaradwr:

Helpwch y gynulleidfa i ddeall mai annoeth ydi'r agwedd dyngedfenyddol o fyw i'r funud. Eglurwch sut gall ffydd wedi'i seilio ar wybodeth drachywir o Air Duw a'i addewidion sicr, ein galluogi i wynebu'r dyfodol yn wrol er gwaethaf problemau personol neu weld sefyllfa'r byd yn gwaethygu. Pwysleiswch y fraint sydd gennym o gael rhannu'n gobaith ag eraill

PAM MAE EICH GOLYGWEDD CHI O'R DYFODOL YN CYFRI' (7 mun.)

Mae llawer, a rhai ifanc yn eu plith, yn meddwl o ddifri' am y dyfodol (*w01 5/15 3-4; w01 8/15 5-6*)

Ceisio rhai ddangos agwedd obeithiol er gwaethaf gorfod cydnabod bodolaeth torcyfraith, afiechyd, haint a rhyfel (*g 1/06 5*)

Daw rhwystredigaeth i boeni eraill gan faint problemau dyn ac o'r herwydd byw er mwyn y funud maen' nhw (*Eseia 22:12, 13; ip-1 237*)

Tueddu i fyw er mwyn y presennol mae pobl sydd heb fod ganddyn' nhw obaith am y dyfodol (*1Cor 15:13, 32; w01 11/1 7*)

Roedd perygl y byddai'r Cristnogion cynnar yn dod dan ddylanwad yr agwedd beryglus hon, ac felly gwelodd Paul angen cadarnhau eu ffydd (*w97 8/15 12; w97 11/1 24*)

Trwy eu hatgoffa nhw i farwolaeth Crist gyflawni proffwydoliaeth, cynyddodd Paul eu gwerthfawrogiad o wir natur pethau ysbrydol (*1Cor 15:3, 4*)

Mi gadarnhaodd hyn eu hyder nhw yn y dyfodol

Heddiw, mae gennym ni, Dystion Jehofah, obaith at y dyfodol, ond beth ydi sail ein gobaith?

Sut gall ffydd ein galluogu ni i wynebu'r dyfodol yn wrol, i drin problemau personol 'nawr, ac i oddef erlid a phwysau wrth wasanaethu Jehofah?

Be' fedrwn ni ei wneud i gynyddu mewn ffydd a gwroldeb?

FEL MAE FFYDD YN CAEL EFFAITH AR EIN GOLYGWEDD (16 mun.)

Mae ffydd Gristnogol yn real—nid hygredded dall mohoni (*Heb 11:1*)

Mae tystiolaeth gadarn yn sail iddi (*it-1 804*)

Mae'r bydysawd gweladwy a'r drefn y tu ôl iddo yn tystio i fodolaeth Creawdwr anweledig a'i ddull gweithredu (*Eseia 40:25, 26; Rhuf 1:20*)

Cawn sail pellach i roi ffydd yn ei holl addewidion yn y ffaith fod Gair Duw mor ddibynadwy o ran manwl gyflawni yr holl broffwydoliaethau sydd ynddo (*Jos 23:14; Rhuf 10:17*)

O astudio'r Beibl, mae Tystion Jehofah yn gwybod beth ydi addewidion Duw ac na all dim rwystro cyflawni'i Air (*cl 9-11*)

Mae gwirioneddau ysgrythurol yn ein helpu i wynebu'r dyfodol yn hyderus

Gwnaeth Duw y ddaear i'w phreswyllo (*Eseia 45:18*)

Ni fydd yn caniatáu iddi gael ei dinistrio ag arfau (*Salm 104:5; Preg 1:4*)

Yn hytrach, bydd yn sicrhau diarfogi byd-eang (*Salm 46:9*)

Bydd Duw yn "dinistrio'r rhai sy'n dinistrio'r ddaear" (*Dat 11:18*)

Wnaiff Jehofah ddim caniatáu i afiechyd ddileu yr hil ddynol

Dileir pob clefyd (*Eseia 33:24*)

Bydd iechyd yn gwella nes cyrraedd perffeithrwydd (*Job 33:25*)

Mae Jehofah wedi addo arbed y cyflawn yn ystod rhyfel Armagedon (*Math 24:22*)

Gan fod enw Jehofah yn union gysylltiedig â chyflawni'i Air, bydd yn sicr o gadw at ei addewid

Yn ôl Llyfr y Datguddiad 7:9, 14 bydd "tyrfa fawr" yn fyw ar y ddaear pan fydd "y gorthrymder mawr" yn cychwyn—mae hyn yn sicr

Wnaiff Jehofah byth ganiatáu i'w bobl gael eu difa (*Salm 116:15; cl 73-4; ka 408-9*)

Mae gwybodaeth Feiblaidd fel hyn yn cadarnhau ein ffydd gan roi nerth inni yn wyneb argyfyngau cyfoes

GOESGYN PROBLEMAU PERSONOL GYDA FFYDD A GWROLDEB (16 mun.)

Mae pawb yn wynebu problemau a thrasedïau sy'n achosi pryder dwys

Mae gofalon dyddiol ynglŷn â sicrhau angenrheidiâu, pryder ynglŷn â gofal iechyd, neu briodas neu fagu plant yn brofiadau i lawer

Mae pethau fel hyn yn effeithio arnom ni, ond di-fudd ydi ceisio'u lleddfu nhw gan anwybyddu buddianau ysbrydol (*Luc 8:7, 11, 14; 21:34-36*)

Mae arddangos ffydd gwrol yn addewidion Jehofah yn sicrhau cynhaliaeth a daw gwir hapusrwydd i'n rhan (*Math 5:3; 6:33*)

Gall rhywun sy'n annwyl i ni farw

Mae ffydd yn addewid yr atgyfodiad yn ein galluogi ni, yn wahanol i anghredinwyr, i alaru mewn gobaith (Ioan 5:28, 29; 1Thes 4:13; *cl* 287-8)

Wrth inni ddeall sut mae Jehofah yn cyflawni'i Air ar ein rhan caiff ein gwroldeb ei gryfhau (*g01* 7/22 22-3)

Does dim amheuaeth y caiff Cristnogion eu herlid

Rhown ein gobaith yn "Nuw, ffynhonnell pob dyfalbarhad" (Rhuf 15:5)

Mae'n brodyr a chwiorydd yn y cyfnod modern wedi gallu wynebu erledigaeth gan lwyr ddibynnu ar Jehofah (*w03* 9/1 23-8)

Mae profi help Jehofah yn ystod treialon yn ein hatgyfnerthu ni i wynebu'r dyfodol gyda ffydd a gwroldeb (Rhuf 5:3-5)

MYNNWCH SŌN WRTH ERAILL AM EICH GOBAITH YNGLŶN Â'R DYFODOL (6 mun.)

Pan fo person yn gwybod beth i'w ddisgwyl, mi all baratoi ac o'r herwydd leihau'r pwysau a'r pryder

Mae gennym obaith sicr: yn fuan bydd llywodraeth Teyrnas Dduw yn glanhau'r ddaear (Dan 2:44)

Rydym yn dymuno rhannu'r gobaith hwn â phawb arall y bu Iesu farw drostynt

Llenwch nhw â hyder yng ngwirionedd achubol y Deyrnas (Salm 145:7, 11-13)

Helpwch nhw i ddysgu sut y medran' nhw hefyd wynebu'r dyfodol gyda ffydd a gwroldeb

Os nad ydych eto yn un o Dystion Jehofah, beth am i chi astudio Gair Duw, yr unig ffynhonnell ddibynadwy ar gyfer deall y dyfodol

Dysgwch am Jehofah Dduw, Iesu Grist, a'r Deyrnas

Boed i chi barhau i gysylltu â phobl Dduw, a byddwch chithau hefyd yn medru wynebu'r dyfodol gyda ffydd a gwroldeb (Deut 31:6)

(Glynwch yn glos at y defnydd a amlinellir, a chadw at yr amser a bennwyd i bob adran. Does dim rhaid darllen na gwneud sylwadau ar bob testun)

Rhif 166-W—tudalen 2

© 2006 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania

I'W DRADDODI MEWN 45 MUNUD

Cedwir Pob Hawl